Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18fed Ionawr 2016

Annwyl Glerc y Pwyllgor,

**Ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Drafft**

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno sylwadau fel rhan o'ch cais am dystiolaeth ar gyfer y Bil[1]. Cyflwynaf rai sylwadau cryno isod mewn perthynas â'r cwestiynau sydd yn Atodiad A:

**Pŵer i'r Ombwdsmon ymchwilio ar ei liwt ei hun**

Fel yr amlinellais yn fy ymateb i'ch ymchwiliad i ystyried pwerau'r Ombwdsmon ym mis Chwefror 2015, credaf fod cyfle i'r Ombwdsmon gael gweithredu mewn rôl fwy rhagweithiol, er enghraifft, drwy ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol os oes tystiolaeth i awgrymu, o achosion unigol, y gallai diddordeb cyhoeddus ehangach fod yn gysylltiedig.

Byddwn yn disgwyl wrth reswm y byddai ymgynghori â mi'n digwydd ynghylch unrhyw ymchwiliadau o'r fath sy'n effeithio ar bobl hŷn, ac y byddwn yn gallu cyfrannu tuag at yr ymchwiliad, a bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, rwyf eisoes yn cyfarfod Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn rhannu ein rhaglenni gwaith arfaethedig, datgan meysydd o ddiddordeb cyffredin, lleihau dyblygu ymdrech ac

[1] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s45205/Consultation%20letter.pdf

adnoddau, a thrafod sut gall ein dau sefydliad weithio i gefnogi'n gilydd i gyflawni canlyniadau a rennir ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae hyn wedi'i gyflawni heb wrthdaro a gallai ddigwydd mewn ffordd debyg gyda'r Ombwdsmon.

**Rhan 5: Ymchwiliadau: ategol**

**Cwestiwn 28: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar adrannau 62, 63 a 64, sy'n darparu ar gyfer cydweithio a chydweithredu gyda Chomisiynwyr penodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru?**

Rwyf yn croesawu cynnwys adrannau 62 a 63 (cydweithio a chydweithredu gyda Chomisiynwyr eraill), ac yn gwbl barod i weithio gyda'r Ombwdsmon ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin. Rwyf eisoes yn cyfarfod yr Ombwdsmon yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i drafod ein hachosion unigol a'n rhaglenni gwaith. Ceir hefyd berthnasoedd cadarn gyda swyddogion yn y ddau sefydliad, sy'n sicrhau bod y wybodaeth am ymchwiliadau allweddol yn cael ei rhannu. Rwyf wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r Ombwdsmon a chyrff perthnasol eraill er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl hŷn yng Nghymru[2].

Rwyf yn cytuno y dylai'r Ombwdsmon roi gwybod i'r Comisiynydd perthnasol ac ymgynghori ag ef, ac rwyf yn croesawu'r cyfle i gydweithredu, cynnal ymchwiliad ar y cyd a/neu baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas ag ymchwiliad.

Hefyd rwyf yn croesawu'r cyfeiriad at ddatgelu gwybodaeth drwy adrannau 62 neu 63 y Bil drafft neu adrannau 16 neu 17 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 h.y. Gweithio gydag ombwdsmyn eraill[3]. Dyma esiampl effeithiol o gyfatebolrwydd rhwng y Bil drafft a darnau eraill o ddeddfwriaeth. Yn sail i'r ddeddfwriaeth mae Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n datgan yn fwy ymarferol sut byddem ni, mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant Cymru, yn cydweithio ac

---

[2] http://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/13-01-04/Sarah_Rochira_Older_People_s_Commissioner_for_Wales_comments_on_the_recent_Public_Services_Ombudsman_report.aspx

[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/30/contents

mae'n ymestyn i gynnwys hyfforddiant ar y cyd, rhannu gwybodaeth am dueddiadau a rhannu adroddiadau perthnasol yn rhagweithiol[4].

Mae'r memorandwm yn datgan mai'r nod cyffredinol yw cyfrannu at ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Nghymru, sy'n parchu ac yn hybu hawliau dynol dinasyddion yng Nghymru ac sy'n sensitif i anghenion aelodau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed cymdeithas, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau polisi. Ni allaf weld unrhyw reswm dros beidio ag ymestyn y Memorandwm hwn i gynnwys ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gan yr Ombwdsmon.

**Cwestiwn 29: A ddylai adrannau 62 a 63 gynnwys y Comisiynwyr a gaiff eu creu yn y dyfodol o bosib gan y Cynulliad, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru?**

Dylai adrannau 62 a 63 gynnwys y Comisiynwyr a gaiff eu creu yn y dyfodol o bosib gan y Cynulliad, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru. Dylai'r dull hwn o weithredu helpu i sicrhau eglurder a chysondeb o ran sut mae'r Ombwdsmon yn gweithio gyda Chomisiynwyr, a darparu fframwaith clir ar gydweithio gyda'r Ombwdsmon i Gomisiynwyr newydd.

Yn gywir,

Sarah Rochira
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

[4] http://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/10-09-01/September_2010_-_Memorandum_of_Understanding.aspx